RHONDDA CYNON TAF

**HYSBYSIAD PENDERFYNU AR GYFER Y CYNNIG I GAU YSGOL GYNRADD RHIGOS GYDA DISGYBLION YN TROSGLWYDDO I YSGOL GYNRADD HIRWAUN**

Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (LlC) 2018 (011/2018), yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2024, penderfynodd Cabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gymeradwyo'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Rhigos gyda disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Hirwaun. Bydd y cynnig yn cael ei roi ar waith erbyn mis Medi 2024 fan bellaf.

Cafodd y rhesymeg y tu ôl i'r cynnig a'r rhesymau sy'n sail i'r penderfyniad i'w weithredu eu hamlinellu a'u hesbonio'n llawn yn y Ddogfen Ymgynghori a gafodd eu cylchredu'n eang y llynedd ac sy'n dal i fod ar gael ar wefan y Cyngor. Rhoddir crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynigion yma isod:

Barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw y byddai cau Ysgol Gynradd Rhigos gyda disgyblion yn trosglwyddo i ysgol newydd, bwrpasol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn cael effaith gadarnhaol ar bob un o'r pum ardal arolygu Estyn, megis:

1. Safonau (Dysgu) – Bydd mwy o ddisgyblion yn cael mynediad at adeilad ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif sy'n darparu mannau addysgu gwell, meysydd adnoddau pwrpasol, amgylcheddau dysgu ysgogol ac offer TGCh o'r radd flaenaf, a bydd pob un ohonyn nhw'n cefnogi i barhau i godi safonau, a gwneud cynnydd yn erbyn argymhellion Estyn.
2. Lles ac Agweddau at Ddysgu – Dylai symud disgyblion o Ysgol Gynradd Rhigos i Ysgol Gynradd Hirwaun, safle gyda chyfleusterau newydd sbon, gael effaith gadarnhaol ar les disgyblion. Mae mannau mewnol hyblyg ar gael i ddarparu cymorth ychwanegol i ddisgyblion. Bydd gofod awyr agored helaeth yn darparu amgylchedd amrywiol a diddorol i ddisgyblion ddysgu a chwarae ynddo.
3. Addysgu a Phrofiadau Dysgu – Bydd symud disgyblion Ysgol Gynradd Rhigos, ysgol fach, i Ysgol Gynradd Hirwaun, sy'n fwy o ran maint, yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio, cydlynu a rhannu arbenigedd a phrofiad. Bydd modd i ddisgyblion Ysgol Gynradd Rhigos, sydd ar hyn o bryd mewn dosbarthiadau bach o ddau a thri grŵp blwyddyn, elwa o gael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o'u grŵp oedran eu hunain.
4. Gofal, Cymorth ac Arweiniad – Bydd amgylchedd yr 21ain ganrif yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu cyfleoedd ychwanegol i'r ysgol ymestyn ei harfer da a hwyluso ymyriadau ac ymgysylltu pellach â theuluoedd a'r gymuned leol. Mae safle newydd yr ysgol wedi'i gynllunio i sicrhau nad yw diogelu yn cael ei beryglu, gyda'r ysgol yn cyflawni achrediad 'diogel trwy ddylunio'.
5. Arweinyddiaeth (a Rheolaeth) – Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth mewn ysgolion yn cael ei chefnogi gan adnoddau addas i'r diben sy'n briodol ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif. Mae'r adnoddau a'r cyfleusterau newydd yn Ysgol Gynradd Hirwaun yn darparu amgylcheddau dysgu effeithiol a chefnogol i ddisgyblion. Bydd ysgol fwy o faint yn darparu

cyfleoedd mwy proffesiynol a dilyniant i'r staff addysgu yn ogystal â chefnogi mwy o gwmpas ar gyfer modelau arweinyddiaeth dosbarthedig.

Mae gan bob Cyngor ddyletswydd statudol drwy ei ddull o drefnu a threfniadau arweinyddiaeth ysgolion i gynnal effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth i sicrhau bod pob ysgol mewn sefyllfa dda i ddarparu addysg o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y gymuned ac sy'n gwneud y defnydd gorau o arian cyhoeddus.

Ysgol Gynradd Rhigos yw ysgol leiaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ac mae nifer y disgyblion sy'n ymuno ag Ysgol Gynradd Rhigos wedi dirywio'n raddol, gyda disgwyl i niferoedd disgyblion barhau i ostwng yn ystod y pum mlynedd nesaf. Ers dechrau'r cyfnod ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig, mae nifer y disgyblion oedran ysgol statudol yn Ysgol Gynradd Rhigos wedi gostwng ymhellach o 51 i 44. Byddai caniatáu i leoedd gwag aros yn uchel drwy ddiffyg gweithredu yn effeithio'n uniongyrchol ac yn negyddol ar hyfywedd ariannol Ysgol Gynradd Rhigos yn y dyfodol ac yn effeithio ar addysg plant yn y dyfodol. Byddai cyllideb Ysgol Gynradd Rhigos, gydag incwm sy'n lleihau, yn cael llai o arian ar gyfer cyflogau staff, gweithgareddau cwricwlwm, offer, costau cynnal a chadw ystâd yr ysgol a byddai'n ei chael hi'n anodd cynnal eu cynnig addysg dda presennol.

Mae Estyn wedi cadarnhau bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg a'r deilliannau ar gyfer disgyblion yr ardal, o leiaf. Mae'r ymateb yn nodi ymhellach fod:

*‘Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi rhesymeg glir dros ei gynnig. Mae'n amlinellu'n gryf y manteision niferus o gau Ysgol Gynradd Rhigos, gyda'r holl ddisgyblion yn trosglwyddo i ysgol Gynradd Hirwaun'.*

Yn ogystal â hyn, mae'r cynnig hefyd yn ceisio rhoi'r cyfle i fwy o ddisgyblion elwa o'r buddsoddiad sylweddol a gaiff ei ddarparu trwy raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru yng Nghwm Cynon.

Trafododd y Cabinet yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn dilyn y broses ymgynghori a'r holl wrthwynebiadau a dderbyniwyd yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, ynghyd â'r wybodaeth a gaiff ei chynnwys yn nogfennau'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, Cymru a'r Gymuned a baratowyd i lywio'r broses ymgynghori.

Wrth wneud ei benderfyniad terfynol, daeth y Cabinet felly i'r casgliad bod y manteision y mae modd eu cyflawni mewn perthynas â gwell deilliannau addysgol, darparu amgylcheddau Ysgolion yr 21ain Ganrif ar gyfer disgyblion ysgol yn y maes yma, a chreu darpariaethau sy'n gynaliadwy yn ariannol, yn rhesymau dilys dros weithredu'r cynigion yma.

Yn gywir,

Gaynor Davies

Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant